# DUWIOLDER

AM DDYDD YR

## ARGLWYDD.

Gan Wiliam Assheton D. D.

Wedi ei gyfieithu, er mwyn y Cymru, gan Offeiriad o Eglwys Lloegr.

Fy gyffylltwyd hefyd at y Llyfr yma (Gynan'r bŷrr i annog dynion yn fynychol i ddo byn Sacrament Swpper yr Arglwydd Ac hefyd rhai Gweddiau i'w harferu, Cyn, Ar, Ac wedi Cymnuno,) gan y Cyfieithwr



2 42 July 1948

CYMRU

## At fy anwŷl Gŷdwladwŷr y Cymra

Y Cymru anwŷl.

An ddaeth y Llyfr yma yn Saefnaeg gyntaf i'm llaw; Bernais yn ebrwydd, y byddeu efe yn lefol iawn i chwi, ped fae wedi ei gyfieithu yn eich laith eich hun: A byn a'm hannogodd i i'w gymeryd mewn llaw. Ond yma y mae'n rhaid i mi eich rhybuddio; Fod yr Awdwr (wedi armain ei Bluyfolion i'r Eglwys) yn eu cyfarwyddo hwy pa fodd i ymddwyn eu hunain yno ar amfer gwasanaeth; megis, pa brýd i Eistedd, pa brýd i sefyll, ar cyffelyb. Ond myfi a ommeddais hynny: Can's bum meun amryw Eglwyfydd yn Gymru; a gwelais eich bôd yn iawn arferu yr hôll Ceremoniau yma. A hyn a wnaeth i mi ( i wneuthyr y Llyfr o'r un faentioli ) yn hytrach gysfylltu at waith yr Awdwr, ( yn lle y cyf-arwyddiad uchod ) [ 1 ] Gyngor bŷrr i'ch annogi i dlerbyn yn fynychol Sacrament Supper yr Arglwydd, dirgel Imborth yr Enaid. Ac [ 2 ] Rhai Gweddiau I'm harfers Cyn, Ar, ac wedi Cymmuno. Darllen . nuch yn ddyfal yr ychydig ddalennau yma: ac os gwelneh en hôd menn môdd yn y Bid yn iefol i chwi, rhowch y Gogoniant i Ddun; Onl coffach weithiers y Cufieichidd yn eich gweddiau : I'r kin iw or boll wobr v mae Eich Galaladur yn ei ditignil am ei boen.

#### DUWIOLDER

Am ddýdd yr Argluydd.

i'w dreulio yn eich duwiolder neillduol; Dymunaf arnoch godi cŷn foreued ag y gellwch, yn ôl y cyflwr y bò eich Cŷrph ynddo. Dywedaf hyn, oblegid os byddwch yn flîn yn ôl y boen a gymerafoch y diwrnod o'r blaen, gellwch gyfgu ychydig hwy ar ddydd Sûl y boreu, nac ar amferoedd eraill. Canys gan fod y Sabboth yn ddŷdd o Orphywyfdra cyftal ag o Dduwiolder, diammeu ni ddyleu gŵr dâ naccau iddo ef ei hun a'i weinidogion, yr efmwythaâd y mae efe yn i roddi iw ei anifciliaid.

Er hynny, pan ddeffrowch, derchefwch yn ebrwydd eich calonnau at Dduw, a fancteddiwch eich meddyliau cyntaf mewn rhyw dduwiol fyrrion Ocheneidiau: Mewn fanctaidd ryfeddiad, a diolchgar adnabyddiaeth o ddoethineb a daioni Duw, yn Creu'r Bŷd, ac yn Prynnu Dynol Riw; Yr hyn y mae'n rhaid i chwi yn bendifaddef

eu cofio ar y dŷdd yma; Gan ddywedyd,

Gogoniant i Dduw Dâd, yr hwn a'm gwnaeth i a'r kôll fŷd.

Gogoniant i Dduw Fab, yr hwn a'm prynnodd

i. a phôb rhyw ddyn.

Gogoniant i Dduw Yspryd glân, yr hun sydd i'm sancteiddio i, a hôll etholedig bobl Dduw. 1

a

775

Y Gogoned, lân, Fendigaid Drindod, tri Pherson, ac un Duw trugarha urthij wir bechadur.

Tra y byddwch yn gwifco am danoch, derchefwch eich Eneidiau yn y myfyrdodau hyn.

Dyma'r Dŷdd a wnaeth yr Arglwydd, gorfoleddwn,

a llawenychan ynddo. Psalm. 118. 24.

Crîst a gyfodwyd oddiwrth y meirw, ac a wnaed yn flaen ffrwyth y rhai a hunasant. Canys, gan sôd mar-wolaech truy ddŷn, trwy ddŷn, hefyd y mae adgysodiad y meirw. Oblegid, megis yn Addâ y mae panh yn meirw, felly hefyd ynGhrîst y byaheir panb. 1 Cor. 15. 20, 21, 22.

Yr hwn a newidia ein Corph gwael ni, fel y byddo yn gyffelyb iw Gorph gogoneddus ef, syn ôl y gailuog weithrediad, trwy yr hwn y dichon efe ddarostung

pob dim iddo ei hun. Phil. 3. 21.

Pan ddarffo i chwi ymwifgo, ac y byddwch barod i'ch defoliwn, offrymmwch eich Aberth o Foliant i Dduw yn y geiriau yma, neu'r cyffelyb.

Gweddi foreuol i ddŷn ar ei ben ei hun.

Bendigedig fyddo dy Enw, Orafusol Dluw, am dy hôll drugareddau a roddaist i mi, er dŷdd fy nganedigaeth hyd y munudyn yma. Ynot ti, O Arglwydd, yr wŷf yn bŷw, yn symmud ac yn bôd. Tydi a'm gwnaethost trwy dy allu dy hun, pan oeddwn yn ddiddim. Tydi a'm prynaist trwy farwolaeth dy anwyl fâb, pan oeddwn yn waeth na dim.

A 3

Bendig-

Bendigedig yn dragywydd fyddo dy Enw, ddarfod fy ngeni i o fewn dy gorlan briodol dy hun, yr
Eglwys Gristianogawl. Llê i'm cyssegrwyd yn
gynnar i ti trwy Fedydd; ac y bûn hyd yn hyn
gyfrannog o'r hôll gymmorthau Ysprydol hynny,
a alleu fy nghynorthwyo i i gwplliau'r Adduned
a wnaethum i yno i ti. Ac er o'm gwirfodd neu
trwy eiceulusdra y torrais yr Adduned honno;
Etto cymmaint yw dy ammynedd, fel i'm harbedaist hŷd yn hyn, ac a roddaist i mi ychwaneg
o amier i cdifarhau.

Dy râs di, O Arglwydd, yn unig a'm hattaliodd i oddiwrth y pechodau mwyaf, ac a'm gwnaeth i yn abl i wneuthur y daioni lleiaf. Am y rhai hyn a phob rhŷw fendithion Ysprydol eraill, fy Enaid a fawryga'r Arglwydd, a chwbl fydd ynof a fawl

ei Enw Sanctaidd ef.

Yr wŷf yn dy foliannu di hefyd am yr amryw fendithion hynny oddiallan yr wŷf yn eu mwynhau; megis Iechyd, Cyfnefyfiaid, Rhydd-did, Ymborth, a Dillad: Y Cyffurau yn gyffal a'r angenrheidiau o'r bywyd hwn: Am fy amddiffynniad y Nôs hon, oddiwrth Dân a Lledrad, a phôb rhyw ddigwyddiadau Echryslon eraill.

Bydded i'th drugareddau hŷn, O Arglwydd, fy nhywys i i Edifeirwch; a chaniadhâ na bo i mi yn unig offrwin i ti ddiolch a moliant, ond trefnu hefyd ty ymwareddiad yn union, môdd y gallwyf o'r diwedd weled Iechydwriaeth Duw, trwy Ieiu Grîft fy unig Gyfryngwr a'm Dadleuwr; Yr hwn a ddyigodd i mi weddio, gan ddywedyd,

Ein Tad yr han wit &c.

Greedi

Wedi i chwi fel hyn ddechreu fancteiddio y dŷdd yma; chwi a ellwch ofalu, fel y gwelwch angenrhaid, am eich byfnessoedd bydol. Fy all yr Hwsmon rodio ei gaeau, a gweled sôd ei apifeiliaid yn ddiogel, a bod trefn ar bôb peth a berthyn iddo.

Yn gwneuthur hyn, nid ydych yn halogi Sabboth yr Arglwydd, fel y mae rhai pobl ofer-goelus yn meddwl; ond yr ydych yn hytrach yn cadw y dydd yma yn ôl arfer y duwiolaf o'r Iddewon. Canys fel hyn y mae ein Iachawdr bendigedig yn

dywedyd ynghylch cadw y dydd Sabboth.

di

n

d

1-

d,

ľ

1-

3

nı

u

yf

lu

VII

Assin neu sch pa un o honoch a syrth i bull, ac yn ebruydd ni's tynnef allan ar y dâdd Sabbothe Luc. 14.5.

Ond, nid rhaid i mi eich cynghori chwi ynghylch eich rhydd-did Criftianogawl, yr hwn yr ydych yn ddigon chwannog i gymeryd o honoch eich hunain. Myfi a ddywedais i chwi hŷn yn hytrach môdd y gallwn gymeryd achlyffur oddi-ymma i'ch rhybuddio, Mae pan fyddech yn rhodio eich caeau, y dylech gofio, mae dŷdd yr Arglwydd yw hwn; Dŷdd wedi ei eidduno iw wafanaeth ef, ac wedi ei neilltuo er llefaad i'ch eneidiau chwi. Ac am hynny gweddus yw i chwi, tra byddech yn rhodio, alw i'ch côf y petnau a ddigwyddafent yr wŷthnos o'r blaen.

Cofinch pa beth a mnaethoch. Pa fold y darfu i chwi ymddwyn eich hunain tu ac at Ddun, a thu ac a eich cymydogion. Pa drugareddau neu farnedigaethau

nodedig a ddigwyddafant i chwi; ar cyffelyb.

A 4

Y

Yn ôl y meddyliau duwiol yma, gan ddychwel i'ch tŷ, gweddiwch drachefn: Gan roddi diolch am y trugareddau a dderbyniasoch, a chan ddarostwng eich Enaid am y pechodau a wnaethoch, a

chan ofyn maddeuant yn daer am danynt.

Yr hyn ddarostyngiad ac edifeirwch ydynt mewn môdd enwedigol yn angenrhaid cyn i ni ddytol i'r gynnulleidfa; am yr achos yma, Ai wrendŷ Daw ar bechaduriaid; Sef, y rhai 1ydd a'u llawn frŷd ar barhau mewn drygioni. Ac y rhai ni wellhânt ac ni adnewyddant eu bucheddau a feddylir yn ddiammeu eu bod yn parhau fellŷ.

Ein dyledswydd ni yw gan hynny, cyn i ni feildio myned i'r gynnulleidfa, i ddilen ein pechodau rwy Edifeirneb. A chyda'r Prophwyd Moses, i lynnu ein Esgidiau, cyn i ni sathru ar dir sanctaidd.

Hyn yn wîr a ddylid ei wneuthyr bôb dŷdd. Ond gan eich bôd o herwydd eich bytneffoedd bylol, yn rhŷ chwannog i efceulufo yr edifeirwch ma ar ddyddiau yr wythnos; etto ni ddylech oedi wneuthyr i fynu y diffyg yma ar ddŷdd yr Arglrydd,pan gaffech fwy o amfer:gan weddio fel hyn,

#### GWEDDIAU.

Holl-alluog Dduw, i'r hwn y mae pôb calon yn agored, a phob deifyf yn gydnabyddus, c oddiwrth yr hwn nid oes dim dirgel yn gudddig; glanhâ feddyliau fy nghalon trwy Yfprydliaeth dy lan Yfpryd, er mwyn Iefu Grift fy rglwydd. Amen.

Holl-

2 10

P

Holl-allung a thragywyddol Dduw, yr hwn ni chafhêi ddim ar a wnaethoft, ac a faddeui bechodau pawb y ty edifeiriol; crea a gwna ynof newydd a drylliedig galon; fel y bo i mi gan ddyledus ddolurio am fy mhechodau, a chyfaddef fy nhrueni, allu caffael gennit, Dduw yr holl drug redd, gwbl faddeuant a gollyngdod, trwy Ieiu Grîft fy Arglwydd. Amen.

HOll-alluog Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, gwneuthurwr pob dim, barnwr pob dŷn; Yr wyf yn cydnabod ac yn ymosidio dros fy amryw bechodau ac anwiredd, y rhai o am er i amier, yn orthrwm a wnaethym, ar feddwl, gair, a gweithred, yn erbyn dy dduwiol fawredd. Megis y rhan arall o'in bywyd, pan wnaethym fel hyn ac fel hyn (yma adroddwch eich pechodau muyaf) Felly yn enwedigol yr wythnos ddiweddaf (yma henneh yr holl bechodau a elluch chui gofio er y Sal o'r blaen ) gan annog yn gyfiawnaf dy ddigofaint a'th far i'm herbyn. Yr wyf yn ddifrifol yn edifarhau, ac yn ddrŵg gan fy nghalon dros fy ngam-weithredoedd hyn. O na cherydda fi yn dy lidiawgrwydd, ac na chofpa fi yn dy lîd. Na âd i un o'm pechodau godi yn fy erbyn yn y bŷd yma i'm cywilyddio, nac yn y bŷd a ddaw i'm barnu. Ond trugarha wrthif, O Arglwydd trugarha wrthif. Er mewn Iefu Grift fy unig eiriolwr a'm Cyfryngwr, maddeu i mi yr hyn ôll a aeth heibio. Ac am yr amfer a ddêl yr wŷf yn proffessu yn dy ŵŷdd di; Fy môd y dŷdd heddyw

yn offrymmu fy hun yn hollawl i ti; mewn ilawn fryd ar ymadel a'm holl ffyrdd pechadurus, ac yn amcanu yn hollawl bŷth i'th ddigio mwyach.

ac yn amcanu yn hollawl bŷth i'th ddigio mwyach. Ond gan y gwyddoit fy niffygiadau, ac nad yw fy ngwendid guddiedig rhagot; dymunaf arnat, O Arglwydd, ddangos dy nerth yn fy ngwendid, a chryffhau fy enaid clywfus yn fy nuwiol fwriad.

O Arglwydd, ddangos dy nerth yn fy ngwendid, a chryffhau fy enaid clywfus yn fy nuwiol fwriad.
Canys, oh, nid allaf o honof fy hun wneuthyr dim daioni; nid cymmaint a meddwl un meddwl dá: Ond trwy dy rás di yn fy nghynorthwyo, gallaf wneuthyr pob peth. Bendigedig fyddo dy enw yn dragywydd am dy raslawn addewid hwnnw, Y rhoddi dy Yspryd glân i'r sawl a'i gofynnant. Wele, Arglwydd, yr wŷf yn ostyngedig, yr wŷf o ddifrif yn gofyn dy lân Yspryd. O cyflawna yn awr dy raslon addewid i mi. O caniatta i mi yr Yspryd glan hwnnw yr wyf yn gweddio am dano, i buro fy natur llygredig; i gryfhau fy ngwendid; i'm cyffuro mewn trall-odau; i'm cynnal mewn gorthrymderau; i'm cymmorth mewn profedigaethau; ac i'm cynnorthwyo yn fy holl ddylediwydd; yn enwedig yn nyledfwyddiu y dŷdd fancteiddiol yma. Modd y gallwyf bŷth o hyn allan dy wafanaethu a'th foddhau di, trwy fŷw yn fobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y bŷd fydd yr awrhon. I Ogoniant dy Sanctaidd Enw trwy Iefu Grîst fy Arglwydd. Amen.

HOll-alluog Dduw, Tâd ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn nid wŷt yn deisyf marwolaeth pechadur, Eithr yn hytrach ymchwelyd o honaw oddiwrth ei anwiredd, a bŷw, ac a addewaist saddeu y rhai oll sydd wir editeriol, ac yn ddiffuant yn credu dy Sanctaidd Etengyl di; mysi a attolygas i ti o'th sawr drugaredd ganiattau i mi wîr Edifeirwch, a'th Yspryd glan, sel y byddo bodlon gennit y pethau yr wŷf y pryd hyn yn ei wneuthyr, a bod y rhan arall o'n bywyd rhagllaw yn bûr, ac yn sancteiddiol, fel y delwyf o'r diwedd i'th llawenydd tragywyddol, trwy Ieiu Grift fy Arglwydd. Amen.

Arglwydd, madden gyfeiliorni ac oerder yr erfynion hyn, a gwna a mi nid yn ol fy ngweddiau a'm haeddedigaethau, Eithr yn ol fy angenrheidiau i, a'th ddirfawr drugareddau dy hun yn Grist Iesu, yn Enw ac yngeiriau bendigedig pa ûn y terfynaf fy anunherstaith weddiau hyn, gan ddywedyd,

Ein Tad yr hwn wyt &c.

2

Gwedi i chwi orphen fel hyn eich gweddiau neillduol, Galwed Gŵr y Tŷ ei deulu ynghyd, o unfryd i ofyn gan Dduw ei ras a'i gymmorth yn yr Addoliad cyffredin, yn y weddi yma, neu'r cyffelyb.

#### Greddi foreuol i Deulu.

O Sanctaidd Arglwydd Dduw galluog, yngŵydd pa un y mae pôb glin yn plygu, ac i ba un y mae pôb Creadur yn y Nêf a'r ddaiar yn ymostwng, ac yn ufuddhau. Wele yma Greaduriaid gwael, euog, yn ostyngedig yn ymostwng o flaen dy Orieddfa; yn addoli dy fawredd; yn rhyfeddu ar dy ddaioni; ac yn dymuno dim ychwaneg, ond yn ffyddlon i'th watanaethu di holl ddyddiau ein bywyd; Canys tydi yn unig wyt Sanctaidd; tydi yn unig wyt Arglwydd; A Gogoniant fyddo i ti. O Arglwydd goruciaf.

Gogoniant fyddo i ti, O Arglwydd goruchaf.

Moliannus fyddo dy Enw, O Arglwydd, o godiad haul hyd ei fachludiad. Tydi yw ein Duw, nyni a dd olchwn i ti; Tydi yw ein Duw, nyni a th clodforwn. Nyni a orweddafom, ac a gyfcafom, ac a gyfodafom eilwaith, canys yr Arglwydd a'n cynhaliodd. Tydi a oleuaist ein llygaid, fel na hunatom yn marwolaeth. Tydi a'n gwaredaist oddiwrth ddychryn y nos, ac oddiwrth y drŵg fydd yn rhodio yn y tywyllwch. Oddiwrth Dân, a lledrad, a phob riw echryslon ddigwyddiadau eraill. Yr wŷt yn adnewyddu dy drugareddau i ni bôb boreu; ac a roddaist i ni un dŷd l ychwaneg, ie dy ddŷdd dy hun, i'th wafanaethu di ac i alw ar dy Enw.

Yr ŷm yn gorfoleddu yn y gwynfydedig rydddid yr wŷt yn awr yn ganiattau i ni, i neillduo ein meddyliau oddiwrth drafferthion y bŷd, i edrych i fynu attati ein gwneuthurwr. I addoli a moliannu dy dragywyddol allu, doethineb, a daioni. I gydnabod ein hyder arnat. Ac i roddi parch i ti. O gad i'th Râs a'th lân Yipryd ein cyfarwyddo a'n cymmorth yn yr holl ddyledawyddau hynny yr ŷm rwymedig i'w cyflawni.

Bendithia dy Weinidog yr hwn a ofodaist

arnom i weini mewn pethau santieiddiol, I weddio trosom, i'n haddyscu, ac i nilied ar ein Eneidiau ni. Pâr i sôd ef yn ddysgedig, yn ddiwyd, yn dduwiol, ac yn rhoddi esampl dâ ini. Gwilied arno ef ei hun, a'i athrawiaeth, fel wrth bynny y dichon ese wared ei hun, a'r sawl a wrandawant arno.

Atteb, O Dduw, yn rafusol yr Eirch bynny a roddir i fynu y dŷdd hwn dros dy bobl. A chaniadhâ i'r addysc hwnnwa roddir i ni, weithredu felly arnom, modd y byddem mewn rhyw fodd neu i gilydd yn well erddo. Fel wrth fôd nid yn unig yn wrandawŷr, ond yn wneuthurwŷr, y Gair, y byddem yn fendigedig; Trwy Iesu Grist: Yn enw a ceiriau pa un y terfynwn ein ammersfaith weddiau hyn, gan ddywedyd.

Ein Tad yr hwn ngt &c.

ERbyn hyn y mae yn debyg y bydd y Clochau yn cich galw i'r Eglwys: Ar ba rai y dylech ddyfal ymwrando, megis ar alwad Duw gan gydnabod mae'r Arglwydd ei hun fydd yn eich gwahodd iw gyfarfod ef yn ei Deml fanctaidd.

A dymunaf arnoch drefnu eich byfnefloedd felly, fel y deloch i'r Eglwys ar ddechreu'r gwafanaeth: Gan wneuthyr cydwybod o fôd yno ar

ddechreu y gweddiau, cyffal ar Bregeth.

Ac yma y cymeraf gennad i ddywedyd i chwi, fod llaweroedd i'm gwybodaeth i, yn feius iawn yn hyn o beth: Yr wŷf yn ofni fod y fath hynny yn bodloni eu hunain, eu bed lawy yn llwyr

gyfliwni gwifanaeth y dydd hwn, os deuant i'r

Eglwys, ond erbyn dechreu'r Bregeth.

Yn awr, i uniawni y cam-gymeriad yma: dymunaf arnoch ystyrio, Eich bod yn dyfod i Dy Daw, md i wrando pregethau yn unig; ond achos pennaf eich dyfodiad yno, yw, i addoli eich Gwneuthurwr, i'w berchi, ac i'w wasanaethu ef. Fel y me cyngor ein Heglwys ni o flaen y gwifanieth beuny Idiol yn dingos i chwi. Yno i'ch dygir ar gô', fol pedwar achos, pa ham yr ŷm yn ymgynnull ac yn cyd-gyfarfod yn Nhŷ Duw. (1) I dalu diolch am yr aml ddaioni a dderbyniasom ar ei law ef. (2) I ddatcan ei haed le liccaf foliant. (3) I wrando ei Sancteiddiaf air ef. (4) I erchi y cyfryw bethau ac a fyddo cymmwys ac angenrheidiol yn gyftal ar lês y Corph a'r Enaid.

Yn hyn y gwelwch; mie, pe i wrando Gair Duw, fyddeu yn unig i wrando y Bregeth ( yr hyn n'd yw; Canys y Psalmau, yr Hymnau, y Llithoedd, yr Etifol, a'r Efengyl, y rhai hyn yn unig ydŷnt Air Duw. Ond am y Bregeth nid św ddim amgen mg Yspysiad o Air Duw, gyda cyngorion ac argyoeddiadau, wedi eu sylfaenu arno ) Ond, meddaf, pe i wrando Gair Duw fyddeu yn unig i wrando y Bregeth; etto yr hwn fydd yn breiennol yn unig ar y Bregeth, y mae yn Esceuluso trî rhan mewn pedwar o'i ddyled-

Twydd, fef, Gweddi, Moliant, a Diolch.
Deuwch, meddaf, gan hynny ar ddechren y Gwafmaeth. A dygwch eich Teulu, a phawb yn perthyn i chwi, gyda chwi: Nid yn unig eich

plant.

plant, y rhai sydd mewn oedran a synnwyr, ond y rhai ievengaf hefyd; yn enwedig os bydd ganddynt gymmaint o Synnwyr, ag i ymddwyn cu hunain yn weddus, ac yn ddistaw, heb aflonyddu y gynnulleidfa

Canys, er nad ydynt yn deall yr hyn a ddywedir, neu a wnelir; Etto y mae en prefennoldeb

hwy yn Nhŷ Duw yn hyfryd Iddo.

1:

d

li

u

y

10

yr

ıŷ

ei 1-

ar

ur

yr

yn

id da

nu

vn

ae

d-

wb ich

nt.

Myfi a'ch dygais erbyn hyn i'r Eglwys: I ba lê Ewch i mewn trwy Barch, ac ag islel galon, a lleferydd ostyngedig, dywedwch,

In amlder dy drugared ly denaf i'th Dŷ, ac yn dŷ' ofn yr addolaf tu a'th Deml Santtaidd. Pial. 5. 7.

Gwedi dyfod i'ch mainge, yn ebrwydd ymoffyngwch elch hun o flaen mawrhydi Duw, a
dymunwch gael ei rafufol gymmorth, a'i dderbyniad o honoch eich hun ac eraill, yn yr holl
ddyledfwyddau hynny yr ydych ar fedr eu
cyflawni; gan ddywedyd,

## Gueddi neillduol yn yr Eglnys.

O Arglwydd, yr wyfi trofof fy hun, a'r holl gynnulleidfa yma yn oflyngedig yn erfyn dy lan Yipryd, i gynorthwyo ein gwendid y pryd hyn; ac i ogwyddo ein calonnau i dduwiolder; modd y byddeu ein gweddiau a'n diolchiadau yn gymeradwy yn dy olwg di, trwy lefu Griff ein Harglwydd. Amen.

Bendig-

Bendigedig Arglwydd, yr hwn a beraist sod yr holl yscrythur lân yn scrisennedig er mwyn ein athrawiaeth a'n addysc ni; caniadhâ ar i ni mewn cyfryw sold eu gwrando, eu darllain, eu chwilio, a'u dyscu, ac i'n mewn eu mwynhau, fel y gallom trwy ammynedd a chyssur dy gyssegredig air, gosleidio ac ymgynnal wrth dy fendigaid obaith y suchedd dragywyddol, yr hon a roddaist i ni, drwy ein Iachawdwr I-su Grist. Amen.

byddwch vn yr Eglwys o flaen yr Offeiriad (yr hvn fydd weddus iawn, ac yr wŷf o ddifrif yn dymuno hynny oddiarnoch) darllennwch y 84 neu y 122 Pfalm, neu y ddwŷ os cewch ennyd: neu ryw ran arall o'r Yscrythur lân, nes i'r Offeiriad ddechreu y gwasanaeth.

Ond ar yr amfer hwnnw, rhowch heibio eich holl feddyliau, a'ch duwiolder neillduol, ac ymrowch trwy barch a llawn frŷd i gyduno yn y gwasanaeth cyffredin; a pharhewch felly nes

darllen y fendith.

## In ôl y Fendith; dywedwch,

Bendigedig fyddo dy Enw miwr a gogoneddus, O Arglwydd ein Duw, am yr achlyfur yma i wrando dy Air di; i'th foliannu am dy drugareddau, ac i wneuthyr ein anghenion yn gydnabyddus i ti, trwŷ haeddedigaethau ein lachawdwr Iefu Grist. Amen. Yn ôl hyn, gan godi yn barchedig oddiar eich gliniau Ewch allan o'r Eglwys.

Gwedi dyfod i'ch Tai, gan fyned i'ch Ystafell,

gweddiwch fel hyn.

Gweddi ferr gartref, gwedi dyfod o'r Eglwys; cyn Ciniaw.

Gogoniant fyddo i ti. O Arglwydd Dduw Galluog: Gogoniant fyddo i ti, yr hwn a adewaist i mi ddyfod o'th flaen v dŷdd heddyw. O pe gallwn aros fel hyn yn Nhŷr Arglwydd hôll ddyddiau fy Einioes, i weled glendid yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei Deml ef.

Arglwydd maddeu fy hôll ddiffygiadau yn dy wafanaeth di y dŷdd hwn: cyfeiliorni ac oerder fy ngweddiau a'm diolchiadau; Er mwyn fy mendigedig Iachawdwr trugrahâ wrthif.

Amen.

od

er hâ

r-

eu

al

ol,

ď

0

5

Arglwydd, gwna fi yn wneuthurwr dy Air, ac nid yn wrandawr yn unig rhag i mi dwyllo fy Enaid fy hun.

In ôl Ciniam ewch eilmaith i'ch ystafell, a pharhewch eich Gweddiau fel hyn.

Gweddi yn ôl Ciniaw.

Bendigedig fyddo dy Enw, O Dâd trugaredd; Byd trwy ein Harglwydd Iesu Grist, am y Byd trwy ein Harglwydd Iesu Grist, am y Boddion moddion o Ras, ac am Obaith Gogoniant.

Yr wyf yn dy fendithio, O Dduw, ddarfod fy ngysiegru yn gynnar i'th wasanaeth di trwy Fedŷdd; pan i'm gwnaethwyd yn Aefod o Grist, yn Blentŷn i Dduw, ac yn Etifedd Teyrnas Nêf.

Ond myfi a ddiystyrais ac a ddirmygais yr holl fendithion hynny. Arglwydd, trugarhâ wrthif, a maddeu i mi fy mheehod, canys mawr yw.

Ac mewn hyder ar dy raflawn ddaioni di. yr wŷf yma o Eigion fy nghalon,yn adnewyddu, O fy Nuw, yr adduned honno, yr hon a dorrais i cyn fynyched.

Yr wŷf yn ymwrthod a Diafol a'i holl weithredoedd, rhodres a gorwagedd y Bŷd an-wir hwn, a holl bechadurus chwantau'r cnawd. Yr wŷf yn credu holl byngciau ffŷdd Grift. Ac myfi a gadwaf wynfydedig ewyllŷs Duw a'i Orchymmynion, ac a rhodiaf ynddynt holl ddyddin fy mywyd.

Hyn ôll, O fy Nuw, yr wŷf yn rhwymedig. felly y gwnaf. Ac yr wŷf yn mawr ddiolch i ti, O Dâd nefol, yr hwn a'm galwaist i'r Iechydwriaeth hyn, trwy lefu Grift fy unig Inchawdwr. Ac yr wŷf yn attolwg i ti, O Dduw. roddi i mi dy Rád, modd y g llwyf aros ynddo holl ddyddiau ty Einioes. Amen. Yr

Ma rhaid i chwi vn ofalus alw ar gôf y Bregeth; ac atgoffau y Cyngorion da a roddodd y Pregethwr i chwi. Ar ail-adroddiad yma o Bregethau yr wŷf yn ddifrifol yn orchymmyn i chwi; canys heb y myfyrdod yma,

fy fydd y Bregeth yn ddiffrwyth.

od

di od dd

yr hâ

di,

u,

il

n-d. ft.

w

11

di

b

1-

0

Ac os bŷdd yr amfer yn caniadhau, rhaid i chwi ddarllen hefŷd rhyw ran o'r Yferythur lân. Yr hyn ddarllenniad o'r Yferythyrau Sanctaidd fydd raid i chwi yn ofalus ei arferu; canys pobl fydd yn poeni ac yn gweithio i ynnill cu bara beunyddiol, [er mwyn pa rai a cyfieithais i y llyfr hwn] nid ydynt yn cael amfer i ddar-

Hen ar ddyddiau'r wythnos.

Fel hyn y mae'n rhaid i chwi dreulio eich amfer, nes i'ch gelwir i'r Eglwys eilwaith ymmhâ lê y mae'n rhaid i chwi arferu yr un Barch a'r Duwiolder, ac a ddarfu i chwi y boreu. Gwedi dychwelyd i'ch tai, neillduwch eich hunain i Weddio [ megis cyn, ac yn ôl Ciniaw a threuliwch y rhan arall o'r Dŷdd, yn Darllen yn Gweddio, yn athrawu eich Plant a'ch Gweinidogion, yn ymweled ar clâf, yn gwneuthyr fynu Cwerylon ac Ymranniadau rhwng Cyn mydogion, gyda dyledfwyddau Criftianogaw eraill.

Ac os byddwch fel hyn yn ofalus yn ngwa? anaeth Duw: ac fel hyn yn gydwybodol y: cadw y Sabboth yma ar y ddaiar; trwy dru garedd Duw cewch gadw Sabboth tragywyddo

yn y Nefoedd.

B\_2

I

Tu ar hwŷr, galwed Gŵr y tŷ ei Deulu yng-hŷd, a darllenned rhyw ran o'r Yscrythyr lân, yn enwedig y Testament newydd, yno caned Psalm, ac yn ol hynny gweddied yn y geiriau yma, neu'r cyffelyb.

#### Gweddi Brydnhannol i Deulu.

Sanctaidd Arglwydd Dduw galluog; yngwydd pa un y mae pob glin yn plygu, ac i ba un y mae pob Creadur yn y Nêf a'r ddaiar yn ymoltwng, ac yn ufuddhau. We'e ymma greaduriaid gwael, Egwan, Euog, yn oltyngedig yn ymostwng o flaen dy orsed fa; yn addoli dy fawredd, yn rhyfeddu ar dy ddaioni, ac yn dymuno dim ychwaneg ond yn ffyddion i'th wafanaethu di holl ddyddiau ein bywyd; Canys tydi yn unig wŷt Sanctaidd; tydi yn unig wŷt Arglwydd; A Gogoniant fyddo i ti, O Arglwydd Goruchaf.

Moliannus fyddo dy Enw, O Arglwydd, o godiad Haul hyd ei fachludiad. Tydi yw ein Duw, nyni a ddiolchwn i ti; Tydi yw ein Duw, nyni a'th clodforwn. Bendigedig fyddo dy Enw, ddarfod it' ein gwneuthyr yn greaduriaid rhefymmol; yn gallu dy adnabod di, ac yn gallu dy fwynhau di.

Ond bendigedig fyddo dy Enw yn dragywydd ein bod yn Griftianogion; ddarfod ein sysfegru i ti trwy Fedydd; ac y buom hyd

yn

yn hŷn gyfrannogion o'r holl gymmorthau Yiprydol hynny a alleu ein cynnorthwyo i gwplhau'r Adduned a wnaethom ni yno i ti. A chan ein bod yn rhy chwannog i lwytho ein calonnau a gotalon y bywyd hwn; moliannus fyddo dy Enw, ddarfod i ti orchymmyn i ni neillduo un Dydd mewn Suth; i roi heibio ein holl feddyliau a'n byfneffoedd bydol; i yftyrio Tragywyddoldeb; ac i ofalu am ein Eneidiau. Yr ym yn diolch i ti am yr achlyfur gwynfydedig a roddaift i ni y Dydd hwn i ymgytartod yn dy Dŷ di. Atteb yn rafufol yr Eirch hynny a roddwyd i fynu dros dy bobl. A chaniadha i'r addylc a roddwyd i ni weithredu felly arnom, modd y byddem mewn rhyw fodd neu i gilydd well erddo. Fel wrth fod md yn unig yn wrandawyr, ond yn wneuthurwyr y Gair y byddem yn ddedwydd.

Ac yr ym yn chwennych, ti a wyddoff, daioni pôb Dŷn. Yr ŷm yn dymuno yn bennaf dy Drugareddau tu ac at y Teyrnafoedd yma, ymmhâ rai yr ŷm yn bŷw. Arglwydd, cadw ac amddiffyn y Brenin, a ficerhâ ei Deyrngader ef mewn Cyfiawnder; fel y gwelom fawer o ddyddiau gwynfydedig tan ei Reolaeth ef. Bendithia pôb grâdd o ddynion yn ein plîth, yn yr Eglwys, ac yn y Deyrnas: Fal y gallo pôb un o honynt yn gywir ac yn uniawn gofpi drygioni a phechod, a maentumio dy wîr grefydd di,

a rhinwedd ddâ.

n,

U

ic

1

12

Sli

n

h

75

t

13

ŋ

y

n

ind

13

Bendithia ein hôll Geraint a'n Cyfeillon.

(22) Duniolder am ddydd yr Arglwydd.

Y fawl a wnaethont ddaioni i ni, Arglwydd gobrwya hwynt. Y fawl a wnaethont, neu a chwennychafant niwed i ni, O Dâl maddeu iddynt. Bydded dy Fendith ar y Teulu yma, a phawb a berthynnent i ni, y nos hon. Cadw ni rhag Tân a Lledrad, a phob rhyw ddigwyddiadau echryslon eraill. Caniadha i ni gŵig efmwyth a chymmedrol, y cyfryw ac a'n cymhwyfa ni i ddylediwyddau'r Dydd fy'n canlyn. Fal yn ôl yr ychydig ddyddiau a'r nofweithiau fydd i ni i'w treulio yn y Bŷd hwn, y gallom ddyfod i'th Orphywysia dragywyddol, gyda Christ Iesu. Yn Enw ac ynGeiriau pa un y Gweddiwn ymmhellach, gan ddywedyd,

Ein Tad yr hwn wyt, &c.

CYNGOR

A hy

CYNGOR bŷrr i annog dynion yn fynychol i dderbyn Sacrament Swpper yr Arglwydd. Hefyd rhai Gweddiau i'w harferu, Cyn, Ar, a chwedi Cymmuno.

#### r CrnGOR.

An i'ch rhybuddir, gan eich Offeiriad, mas ar y dydd, ar dŷdd y ministrir i bawb ffydd-Ion a defolionol, tragyflurus Sacrament Corpla a Gwaed Crift. Yftyriwch ynoch eich hunain, cyn dyfod yr amter; ddarfod eich gwahodd i ddyfol, nid yn unig i brefennoldeb, ond at fwrdd Duw; i fod yn un o wahoddedigion Arglwydd yr hôll Fŷd. Pa fath Gariad yw hwn a Eglurhaodd y Nefoedd i ni? Pwy all ymattal oddiwrth ddagrau o ofid a thriftwch, i feddwl am ei anniolchgarwch ei hun; ac oddiwrth ddagrau o lawenydd, i feddwl am ryfeddol fwynder yr Arglwydd? A ellwch chwi edrych arno ef yr hwn a wahanwyd dros eich pechodau chwi, ac heb wylo a thriftau? A ellwch chwi weled ei archollion gwaedlyd ef, ac heb ofidio? Diammeu, nid all calon un dyn fod mor galed. Ac etto pan ystyriwch, mae trwy y fflangellau hynny i'ch iacheir chwi; ddarfod i Grift eich golchi chwe oddiwrth eich pechodau yn ei waed ei hun; ac y dichon Encidiau y ffyddlon gym-B 4

eryd noddfa yn ei friwiau ef, a bôd yn ddifraw ac yn ddiogel; nid ellwch lai na gorfoleddu yn yr Arglwydd, a llawenychu yn ei Iechydwriaeth ef.

Crist, i ddangos ei fawr Gariad tu ag attom, a roddodd i ni o'i Fara ei hun, ac o'i Gwppan ei hun: Ese a roddodd i ni ei Gorph ei hun megis yn Fara, a'i Waed ei hun megis yn Wîn, er maeth i'n Eneidiau.

Ystyriwch gan hynny y gofal mawr a ddangotodd Crist tu ag attoch, yn ordeinio y Sacrament ymma, ac yn ei r ddi i chwi bechaduriaid truain: Yn wîr, yr oedd hyn yn Gariad pûr; gan nad ellid roddi dim mwy thagorol, a mwy gwerthfawr. Ac yn awr a geiff chwantau'r Bŷd fôd yn fwŷ yn eich calonmau na chariad i'r Arglwydd? A geiff amserol blesserau pechod foddi y coffadwriaeth o Ogoniant Crist yn y Sacrament Sancteiddiol yma? Nid yw eich Einioes chwi ond dyrnfedd; ac etto gwell a fyddeu i chwi ped fae yn fyrrach, nag i chwi ei dreulio mewn esceulusdra o Dduw. Gwell a fyddeu i chwi farw, a bôd ar goll yngoffadwriaeth y Bŷd, nag angofio eich Prynnwr. Rhowch heibio gan hynny eich holl fyfneffoedd bydol, a chymerwch boen i barottoi eich hunain i'r rhan neillduol yma o wafanaeth Duw; ac nad ymabsennwch oddiwrth y Sacrament bendigedig. Yr

Yr Iddewon a groeshoeliasant yr Iesu un-waith a'u dwylo; ond yr ydych chwi yn ei groeshoelio ef eilwaith, ie, bob dydd trwy eich pechodau: Pwy ydych chwi gan hynny sydd yn meiddio dytod at Grist, heb lis o ddagrau; pan syddo ef yn dyfod attoch chwi mewn asonydd o waed? Pwy all sytyrio ar Gorph archolledig Crist, heb Enaid archolledig? Neu edrych ar ei Ystlys wahanedig ef, heb galon wahanedig? Dercheswch eich calonnau trwy sydd; ac yno pa beth bynnag yw eich gorthrymder a'ch gosid, y mae i chwi rinwedd feddiginiaethus i'w gael yn Gwaed Crist. Y mae i chwi saldeuant o'ch pechodau, a heddwch cydwydod wedi ei siccrhau i'ch Eneidiau trwy y Sacrament bendigedig yma, megis Sêl o Ras, a Gwystl o Ogoniant.

Nessewch gan hynny chwychwi Eneidiau cystud lie lig at y Bwrdd Sancteiddiol, a gwelwch Oen Duw yn marw trotoch. Fy ddangosodd Crist y sforid i ddysod atto es; na fydded yn slîn gennych chwi rodio atto. Na fyddwch gyslŷm i erlid oferedd y bŷd; ac yn llêsg yn Gwasanaeth Duw; Na redwch ar ôl tradsferthion darfodedig y bywyd yma; ond prysfurwch i ddysod at Fwrdd Sancteiddiol Crist.

Ond pa ham yr ydych mor wrthwynebut i ddyfod at fwrdd yr Arglwydd; ple y gellwct yfed Gwîn a Llaeth heb arian, ac heb brîst ple gellwch gael eich digoni megis â mêr

braide

ton

ni

brasser, a bwytta o'r Bara bywiol hwnnw; yr hwn pwy bynnag a'i bwytti, sydd byw yn

dragywydd.

A angofiafoch chwi Orchymmyn Crift; Gwnewch hyn er côf am danaf. Ai dyma gofio eich anwyl Brynnwr? I feddwl am dano unwaith yn y flwyddyn, neu nid hwyrach unwaith mewn faith mhlynedd? Oni ddylech chwi ei gofio ef cyn fynyched ac y caech ennyd ac achlyffur? Ped fae eich Iachawdwr heb feddwl am danoch chwi, ond pan feddyliech chwi am ei Angeu a'i ddioddefaint ef; Be mor druan fyddeu eich cyflwr? A ellwch chwi feddwl yn rhŷ fynych am ei gariad ef? Ydŷch thwi yn ofni bod yn rhŷ grefyddol, ac yn rhŷ gariadus a'r lefu yma? Ydych chwi yn ofni s gwneist golwg o waed tywalltedig Crist, i hwi dywallt allan ormod o Ddagrau, Gweddiau. chlodforeddau o'i Gariad ef? Gan yftyrio nor fŷnn, ac mor farwol yr ydych; angenhaid a fyddeu i chwi ddyfod yn fynychol i'r acrament, i gael conorthwyo eich ferch trwy verthfawr VVaed Crift. Ydych chwi yn ofni inewyddu eich Edifeirwch, eich ffŷdd, eich iobaith, eich Cariad yn rhŷ fynych? Pa mynched y deuwch i'r Cymmun Bendigedig yma, wy fŷdd eich Cydnabyddiaeth a'ch anwyl rynnwr. Nid oes i nêb fwy o groesaw wrth Bwrdd yma, nag i'r ufudd a'r cyfluddiedig; 1: nid oes nêb yn cael ei dderbyn â mwy o ifr, na'r Tlawd yn yr Yspryd. Ymbarottowch chwithau eich hunain gan hŷnny yn awr, a deuwch at Fwrdd yr Arglwydd; A'r Tad tragywyddol a ddywed wrthych, Byddwch lawen, maddeuwyd i chwi eich pechodau.

#### Gneddi cyn derbyn y Cymmun.

Wynfydedig Icfu, yr hwn a'th offymmaift dy hun troich unwaith ar y groes, ac wyt yn dy gynnig dy hun i mi'r awrhon yn y Cymmun; na ad, yr wyf yn attolwg i ti, i'm hanediteirch, neu i'm hanneilyngdod i wneuthyr y trugareddau anteidrol hyn yn anfuddiol i mi, Eithr cymhwyfa fi trwy dy Ras i dderbyn cyflawn ffrwyth o honvint. Y mae arna'i, O Arglwydd, dy cificu di'n ddirfawr; ond yr wyf wedi fy llyfetheirio ag Euogrwydd, a chwedi fy nal i mewn a rhaff fy mhechod, fel na allaf Tymmud tu ag attat ti; O gollwng fi yn rhŷdd or rhwym I wn; a thywys fi modd y gallwyf redeg ar dy ol di. Trugarhâ wrthif, O Grift, trugarl'a wrthif, canys y mae fy Enaid yn ymddiried ynot, ac ynghromlechydd dy archollion y bydd fy noddfa, nes i lidiawgrwydd dy Dad fyned leibio. O tydi yr hwn megis fy Arch-Offeiriad a aberthaift trofof, Eiriol hefyd trotofi a dadleu haeddiant dy ddioddefaint er fy mwyr i; ac na ad, O fy mhrynnwr, i bris dy waed t fyned yn gwbl ofer: Ond caniadha, O Arg lwydd, megis y mae fy mhechodau i yn am(28)

i'w maddeu, felly y bo i mi garu llawer. Tydi, O wynfydedig Iciu, a fuolt farw i'm gwaredu i odniwith bob anwiredd, O na ad i mi fy ngwerthu fy hun drachefn i weithredu drygioni; ond caniadha i mi nessau attat y pryd hyn a Ilawn fwriadau difigl a difrifol o adnewyddiad hollawl, a gâd i mi dderbyn y cyfryw Râs a Gallu oddiwrthiti, fal y gallwyf yn ffyddlon eu cwplhau hwynt: Y mae fy Enaid, O Arglwydd, yn gruddfan tan amryw bechodau hên cynnefinol (Yma traetha allan dy bechodau mmvaf ) Ac er cyhyd y gorweddwyf wrth lynn Bethesda, er mynyched y delwyf at dy fwrdd, Etto oni bydd yn wiw genniti effyn allan dy feddiginiaethus rinwedd, hwy a barhâant yn wastad heb eu iachau. O tydi wynfydedig Byf-ygwr Eneidiau, iacha fi, a chaniadha fod i mi felly dy gyffwrdd di yr awrhon, fel yr attalio pôb un o'r diferlif ffiaidd hyn yn Ebrwydd, ac fel na bo'r clefydau hyn i farwolaeth, ond i ogoniant dy drugaredd yn maddeu, ac i ogoniant dy Ras yn glanhau creadur truan mor hallogedig. O Grist, gwrando fi, a chaniadhâ fôd i mi yr awrhon nesau attat a'r cyfryw Ostyngeiddrwydd, cyffudd calon, cariad a duwiolder, fal y bo'n deilwng gennit ti ddyfod attaf, a phrefwylio gyda fi, trwy dy gyfrannogi dy hun i mi, ynghyd a hôll haeddedigaethau dy ddioddefaint. Ac yna, O Arglwydd, na fydded i'r un o achwynion Satan neu 'nghydwybod fy hûn, fy nrawychu na'm cythrwblio, ond gan fod gennif eddwch gyda thydi, gâd i mi gael heddwch hefyd

hefyd ynof fy hun; fel y bo i'r Gwîn hwn lonni, ac i Fara'r bywyd hwn merthu fy ngalon, am gwneuthyr yn abl i redeg ffordd dy orchymmynion. Caniadhâ hyn, drugarog lachawdwr, er mwyn dy dofturi a'th ymyscaroedd dy hun. Amen.

In ebraydd o flaen derbyn, dyneduch,

YR wyf yn dyfod, Arglwŷdd Iesu, yr wyf yn dyfod: O tŷnn fi attat dy hun, canys yr wŷt yn fy ngharu i, ac a ddarperaist fwrdd i mi yn Eisteddfa cariad.

O Sanctaidd Iefu, yr wyf' yn dy weled wedi dy yftyn ar y groes, a'th freichiau ar lêd yn barod i gofleidio, a derbyn i'th fynwes hôll ddynol riw.

O fendigedig lesu, gad i'r gwaed a redodd o'th fendigedig galon, olchi fy Enaid oddiwrth pôb pechod ac anwiredd, a phrynnu i mi dy nesol Râs a'th Fendith.

Oen Duw, tydi a ddywedaist, mae yr hwn fydd yn bwytta dy gnawd, ac yn yfed dy waed, a gaiff fywyd tragywyddol.

Wele Wasanaethydd yr Arglwydd, bydded i

mi yn ôl dy Air Arglwydd, nid wyf' deilwng i ti ddyfod dan fy nghronglwyd; ond dywed y gair, Arglwydd, a'th wâs a iacheir.

Wrth dderbyn y Bara, dyweduch,

TRwy dy Gorph croeshoeliedig di gwared fi oddiwith gorph y farwolaeth hon.

di.

lu

a

da

11

u

14

n

71.11

## Gredi derbyn y Bara, dywedwch,

B'indigedig fyddo Enw fy ngrafusaf a'm benlicedig lachawdwr Iesu, am roddi i mi ei
werthfawr Goroh i sôl yn ymborth i'm Enaid:
Caniadhâ O Grist, am v neth a roddaist i mi er
maddeuant fy mhechod u, na bŷdd trwv sw mai i
yn anchwanegiad o honynt. Ac vn awr O Dduw,
yn usudd y cyslwynaf i ti fy ngorph a'm Enaid;
Cyminhwysa di hwynt i'th wasanaeth di; fel
megis y rhoddais fy aelod u i bechod ac aslendid;
felly v gallwyf o hyn allen rodio mewn cysiawnder a sancteiddrwydd o'th slaen di, hôll
ddyddiau fy mywyd. Amen.

## Cyn derbyn y Gwppan, dyweduch,

D'Hol Iechydwriaeth a gymeraf, ac ar Enw'r

Arglwydd y galwaf.

O bydded i'th Waed ti buro fy neydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon i wafanaethu y Duw byw.

Arglwydd os mynni, tydi a elli fy nglen-

hau i.

O cyffwrdd a mi, a dywed, mynnaf, bŷdl lân.

## Gwedi derbyn y Gnppan, dywedwch,

Grphennwyd; Bendigedig fyddo Enw ein grafufaf Dduw; Bendith, Gogoniant, Moliant ac Anrhydedd, Cariad ac ufudd-dod fyddo

i'r hwn fydd yn Eistedd ar yr Orseddfaingc,

ac i'r Oen yn dragywydd.

O Dduw, tywallt i lawr dy Radau arnom ni, cyfarwydda ein cerddediad yn dy ffŷrdd, cryfhâ ni yn dy ofn, cadarnha ni yn dy gariad, a dôd i ni yn y diwedd etifeddiaeth dy blant.

YR awrhon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangneddyf yn ôl dy air.

Canys fy llygaid a welfant dy Iechyd-

wriaeth.

ben-

ni ei

aid:

nai i

aid; fel

lid;

Cr.f.

llor

v'r

nd

hu

n-

in.

in I-

Yr hon a barottoaist ger bron wyneb yr hôll bobl.

I fod yn oleuni i oleuo'r Cenhedloedd, ac yn

Ogoniant i'th bobl Ifrael.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mab, ac i'r Yf-

pryd glan;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awrhon, ac a fŷdd yn wastad yn oes oes-oedd. Amen.

Tma gan godi i fynu, dyneduch,

HAlelujah; Iechydwriaeth i'n Duw ni, ac i'r Oen yn dragywydd. Amen.

DIWEDD.